**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Dyfed-Powys**

# Adroddiad ar Hapsamplu Cwynion

## Chwarter 4: Ionawr - Mawrth 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ... 2

**Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu** ... 3

**Crynodeb o’r canfyddiadau** ... 4

*Cadarnhaol* ... 4

*Maes i’w wella* ... 4

**Canfyddiadau’r Hapsampl** ... 5

*Ionawr* ... 5

**Sylwadau’r Adran Safonau Proffesiynol** ... 9

*Maes i’w wella* ... 9

## Cyflwyniad

Hapsamplwyd cyfres o achosion cwynion gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025.

Adolygodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfanswm o 18 o achosion cwynion caeedig a ddewiswyd ar hap yr ymdriniwyd â nhw gan yr Adran Safonau Proffesiynol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024. Prif ddiben y gwaith craffu hwn yw adolygu'n annibynnol bod y broses o gofnodi ac ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, a bod y gwasanaeth a ddarperir i'r achwynydd yn rhesymol a chymesur.

Mae cefndir a phwrpas y gwaith hapsamplu craffu, ynghyd â sut mae'r hapsamplu yn cael ei gynnal, wedi'u manylu yn y Fframwaith Craffu ar Gwynion sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Gwnaeth Deddf Plismona a Throseddu 2017 a'r rheoliadau ategol newidiadau sylweddol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu. Cyflwynwyd nifer o newidiadau gyda'r nod o sicrhau system gwyno sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer ym mis Chwefror 2020.

Mae'r system gwyno wedi datblygu i gwmpasu ystod ehangach o faterion. Yn flaenorol, roedd y ffordd y diffiniwyd y term 'cwyn' yn golygu bod angen iddi ymwneud ag ymddygiad swyddog unigol. Nawr gellir gwneud cwyn am ystod llawer ehangach o faterion, gan gynnwys y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu fel sefydliad. Y bwriad yw bod hyn yn cynyddu mynediad i system gwyno'r heddlu.

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn disgwyl i heddluoedd ystyried yr wybodaeth y maent yn ei chadw am gwynion gan gadw bwriad y diwygiadau mewn golwg – rhwymedigaeth gadarnhaol i gynyddu mynediad a chasglu gwybodaeth sy'n galluogi heddluoedd a chyrff plismona lleol i ddysgu o gwynion a materion eraill.

## Ystadegau Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Bob chwarter, mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn casglu data gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â sut maen nhw'n ymdrin â chwynion. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn defnyddio'r data hyn i gynhyrchu bwletinau gwybodaeth. Mae'r rhain yn nodi perfformiad yn erbyn nifer o fesurau ac yn cymharu data pob heddlu â chyfartaledd yr heddlu mwyaf tebyg iddynt, a'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob heddlu.

Mae'r tabl isod (cyfnod adrodd: 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025) yn cyflwyno dadansoddiad o sut yr ymdriniwyd â honiadau. Cofnodir penderfyniad honiad ar gyfer pob honiad sydd wedi'i gwblhau. Mae'r penderfyniad ynghylch yr honiad yn adlewyrchu sut yr ymdriniwyd â'r achos cwyn, gyda gwahanol benderfyniadau ar gael ar gyfer y gwahanol ddulliau o ymdrin. Bydd y penderfyniadau ynghylch yr honiadau a'r camau dilynol sydd ar gael yn dibynnu ar ddau beth: yn gyntaf, a ymdriniwyd â'r achos cwyn y tu allan i Atodlen 3 neu odano; ac yn ail, y dulliau o ymdrin â'r achos lle y mae wedi'i drin o dan Atodlen 3.

| How allegations were handled (Year to date) | Force No. | Force % | MSF Average No. | MSF Average % | National No. | National % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Under Schedule 3 investigated (not subject to special procedures) | 36 | 3 % | 78 | 5 % | 16,001 | 10 % |
| Under Schedule 3 investigated (subject to special procedures) | 2 | 0 % | 10 | 1 % | 2,071 | 1 % |
| Under Schedule 3 - not investigated | 552 | 51 % | 879 | 58 % | 73,237 | 45 % |
| Outside of Schedule 3 | 502 | 46 % | 590 | 36 % | 71,979 | 44 % |
| **Total** | **1,092** | **100 %** | **1557** | **100 %** | **163,288** | **100 %** |

Mae cwynion yr ymdrinnir â nhw o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn gymwys i gael eu hadolygu naill ai gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Fodd bynnag, nid oes gan gwynion yr ymdrinnir â nhw yn anffurfiol y tu allan i Atodlen 3 hawl i adolygiad.

Rhaid trin cwynion yr ymdrinnir â nhw y tu allan i ofynion Atodlen 3 gyda'r bwriad o'u datrys er boddhad yr achwynydd. Mae ymdrin â chŵyn y tu allan i ofynion Atodlen 3 yn rhoi cyfle i fynd i'r afael yn brydlon â'r pryderon y mae achwynydd wedi'u codi. Nid oes angen ymholiadau

manwl ar gyfer rhai cwynion er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, efallai mai dim ond esboniad y mae'r achwynydd yn dymuno ei gael, neu i'w pryderon gael eu nodi neu eu trosglwyddo. Efallai mai ymdrin â chwynion o'r fath y tu allan i Atodlen 3, yn brydlon, yw'r ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol a buddiol o ddatrys y gŵyn. Gall hyn roi sicrwydd i'r achwynydd bod ei bryderon wedi eu nodi a'u datrys, gan ddarparu cyfle dysgu i'r heddlu o bosibl (ac, os yw'n briodol, i unrhyw unigolion cysylltiedig).

Mae'r tabl yn dangos bod 46% o gwynion wedi cael eu trin y tu allan i Atodlen 3. Yn y chwarter cyntaf a'r ail chwarter, canran y cwynion yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i Atodlen 3 oedd 51%. O ganlyniad, parhaodd y rownd hon o hapsamplu i asesu'r cwynion yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i Atodlen 3.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

*Cadarnhaol*

- Darparwyd canlyniadau manwl.
- Nodwyd arferion da o ran trin cwyn y tu allan i Atodlen 3 mewn un achos. Cafodd ei ddatrys o fewn diwrnod i dderbyn y gŵyn.
- Tystiolaeth o gyfathrebu da rhwng y rhai sy'n ymdrin â chwynion ac achwynwyr. Mewn un achos, darparwyd manylion cyswllt y sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn i'r achwynydd pe bai am drafod ei gŵyn ymhellach.
- Darparwyd gwybodaeth am hawl y dioddefwr i gael adolygiad mewn un achos.
- Roedd yr Adran Safonau Proffesiynol wedi bod yn gyson wrth ddilyn unrhyw sgyrsiau ffôn gyda negeseuon e-bost manwl yn ymdrin â'r hyn a drafodwyd a'r hyn y gallai'r achwynydd ei ddisgwyl nesaf.

*Maes i'w wella*

- Dylai goruchwylwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Adran Safonau Proffesiynol ynghylch unrhyw gamau gweithredu / canlyniad cwyn y maent wedi ymdrin â hi'n anffurfiol y tu allan i'r Atodlen.
- Mewn rhai achosion, roedd yn anodd nodi beth oedd canlyniad y gŵyn neu a ydoedd wedi'i chyflawni, ac a oedd yr achwynydd yn fodlon â'r canlyniad.

- Mewn un achos, penderfynodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu y gallai'r achwynydd fod wedi cael ei gyfeirio at yr adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Canfyddiadau'r Hapsampl

*Ionawr*

| Rhif yr achos | Crynodeb o'r gŵyn | Y math o driniaeth | Sylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
|---|---|---|---|
| 1 | Yr achwynydd wedi mynegi anfodlonrwydd cyffredinol â'r heddlu oherwydd diffyg gweithredu i'r digwyddiadau y mae wedi bod yn eu hadrodd, gan eu bod yn parhau i ddigwydd. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ymateb da gan y Rhingyll a fu'n ymdrin â'r gŵyn.<br>• Manwl iawn ac enghraifft dda o ymdrin â chŵyn y tu allan i Atodlen 3. |
| 2 | 1. Yr achwynydd yn honni nad yw'r heddlu'n ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau y mae'n eu hadrodd.<br><br>2. Yr achwynydd yn credu bod rhagfarn hiliol gan mai Teithwyr Gwyddelig ydyw ef a'i deulu, a bod y materion a adroddwyd yn droseddau casineb. | Y tu allan i Atodlen 3 | • A oes rhagor o wybodaeth yn gysylltiedig â'r cyfeirnod achos hwn? O'r manylion a welwyd, mae'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon.<br>• Beth oedd y rhesymeg dros beidio â chofnodi hyn o dan Atodlen 3? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r achwynydd a'i phartner wedi adrodd nifer o gwynion am fwlio, aflonyddu a bygythiadau iddyn nhw a'u teulu gan y protestwyr yng Ngwesty Parc y Strade. Maent yn anfodlon nad yw eu hadroddiadau'n cael eu cymryd o ddifrif. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ymateb cymesur gan y sawl a fu'n ymdrin â'r gŵyn, a roddodd ganlyniad i'r achwynydd.<br>• Enghraifft dda arall o ymdrin â chŵyn y tu allan i Atodlen 3. |
| 4 | Yr achwynydd yn adrodd nad yw'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiad y mae wedi adrodd amdano. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ni wyddys pam y mae hyn wedi'i gofnodi fel trosedd gasineb. |

*Chwefror*

| Rhif yr achos | Crynodeb o'r gŵyn | Y math o driniaeth | Sylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
|---|---|---|---|
| 1 | Yr achwynydd yn honni nad ydyw wedi cael unrhyw gyswllt gan yr heddlu / nad ydyw wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn nifer o alwadau iddyn nhw ynglŷn â'i gymdogion. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Y gŵyn wedi'i hanfon at yr Arolygydd lleol i ymdrin â hi. Caewyd yr achos gan yr Adran Safonau Proffesiynol y tu allan i Atodlen 3 ar 23 Ebrill 2024.<br>• Diweddariad ar gynnydd gan yr Arolygydd ar 24 Mai 2024. A ddylid cau achos y tu allan i Atodlen 3 cyn ei neilltuo i Arolygydd siarad ag achwynydd? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Dim sylw wedi'i wneud gan yr Adran Safonau Proffesiynol yn cynghori ar y broses os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon â'r drafodaeth â'r Arolygydd. A fyddai'r achwynydd yn gwybod sut i symud ymlaen ymhellach?<br>• Canlyniad gan y tîm plismona bro a ddaeth i law ar 24 Gorffennaf 2024, sy'n amlinellu'r casgliad o'r ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn hon.<br>• Dim cyfeiriad at adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| 2 | Yr achwynydd yn anhapus â'r diffyg gweithredu gan yr heddlu ynghylch ei gyn-bartner y mae'n honni ei fod yn ei gam-drin yn feddyliol. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Dim canlyniad i'r gŵyn. A ydyw'r gŵyn wedi'i chau cyn cael diweddariad gan yr Arolygydd y neilltuwyd yr achos iddo?<br>• Sut y mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn monitro a ydyw'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon? |
| 3 | Yr achwynydd yn anfodlon â'r diffyg cyswllt â'r heddlu ynghylch adroddiad o ymosodiad. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Dim manylion am ganlyniad. Angen gofyn am ganlyniad terfynol y gŵyn hon. |
| 4 | Yr achwynydd yn anhapus â'r diffyg gweithredu gan yr heddlu yn dilyn ei adroddiad am ymddygiad bygythiol. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ni ellir ymdrin â chŵyn tra bod ymchwiliad yn parhau. A gafodd hon ei chofnodi'n ffurfiol?<br>• Roedd yr achwynydd eisiau i hyn gael ei gofnodi ar 22 Mai 2024, dim tryloywder.<br>• Angen eglurhad o ran pam y cafodd yr achos hwn ei gau ar 13 Mai ond ei ailagor. A ddylai fod ganddo gyfeirnod cwyn arall gyda gohebiaeth bellach ym mis Awst? |
| 5 | Yr achwynydd yn anfodlon â chanlyniad achos, a hefyd o ran sut y rhannwyd penderfyniad yr heddlu i gau'r mater gan nad oedd angen unrhyw gamau pellach. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Arfer da o ran ymdrin â chŵyn y tu allan i Atodlen 3. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Yr achwynydd yn anfodlon ei fod wedi cael gwybod na allai godi gwrth-honiad tra'r oedd yn cael ei ymchwilio. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Canlyniad wedi dod i law gan y Rhingyll yn flaenorol yn hysbysu bod yr achwynydd wedi cael gwybod nad oedd y meini prawf i ailagor ymchwiliad wedi'u bodloni.<br>• Manylion cyswllt wedi cael eu rhoi i'r achwynydd i gael esboniad pellach gan y Rhingyll, sy'n arfer da. |
| 7 | Yr achwynydd yn anhapus bod swyddogion heddlu yn ymweld â'i gartref i drafod anghydfod â chymdogion. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Dim canlyniad gan y tîm plismona bro ar ôl ei ddyrannu. |
| 8 | Yr achwynydd yn anfodlon ag ymateb yr heddlu i'w alwadau am broblemau gyda chi'r cymydog yn crwydro ar ei eiddo. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Yr achos wedi'i gau ar 31 Gorffennaf; fodd bynnag, parhaodd aelod staff o'r Adran Safonau Proffesiynol i wneud ymholiadau o 1 Awst, gan ganfod ar 14 Awst bod Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu wedi ymweld.<br>• Dim adroddiad na gwybodaeth yn cynghori ar yr hyn a drafodwyd gan y tîm plismona bro; felly, nid oes modd canfod a ydyw'r achwynydd yn fodlon bod ei chŵyn wedi cael ei thrin. |
| 9 | Cwyn yn erbyn modd gyrru swyddogion heddlu. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Arfer da o ran ymdrin â chŵyn y tu allan i Atodlen 3. |

*Mawrth*

| Rhif yr achos | Crynodeb o'r gŵyn | Y math o driniaeth | Sylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
|---|---|---|---|
| 1 | Yr achwynydd yn anfodlon bod yr heddlu wedi ceisio cael mynediad i'w gartref heb warant, ac yn cyhuddo | Y tu allan i Atodlen 3 | • 11 Hydref 2024 – Gofynnodd yr Adran Safonau Proffesiynol am gael eglurhad o fanylion penodol y gŵyn oherwydd bod yr achwynydd wedi gofyn am ei chofnodi'n ffurfiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | swyddogion o gysylltu ag ef yn amhriodol trwy eu ffonau symudol personol eu hunain. | | • Strategaeth gyswllt ar waith i gyflwyno drwy wefan yr heddlu yn unig. Gwelir bod hyn yn arfer da.<br>• Yn briodol i ymdrin â'r gŵyn y tu allan i Atodlen 3, ac ymdriniwyd â hi yn amserol. |
| 2 | Anghydfod ynghylch digwyddiad traffig a swyddog yn gwrthod darparu prawf adnabod. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Ffoniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr achwynydd ac anfonwyd neges e-bost wedi hynny.<br>• Mae'r neges e-bost yn glir ac yn mynd i'r afael â phob elfen o'r gŵyn. |
| 3 | Yr achwynydd yn anfodlon â diffyg ymateb yr heddlu drwy Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu a'r ymateb i ddigwyddiad. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Wedi'i neilltuo i'r Rhingyll i wneud cysylltiad. Cysylltodd y Rhingyll ar 26 Hydref 2024 gan roi gwybod am y camau heb eu cymryd.<br>• Ni wyddys a ydyw'r achwynydd yn fodlon ar ôl y drafodaeth. A fyddai'r achwynydd yn gwybod sut i symud ymlaen ymhellach pe na fyddai'n fodlon? |
| 4 | Yr achwynydd yn anfodlon â chyswllt gan y Swyddog Cam-drin Domestig. | Y tu allan i Atodlen 3 | • Nid yw'r canlyniad yn hysbys ers i'r achos gael ei ddyrannu i'r goruchwylydd. Aethpwyd ar drywydd yr achos gyda'r goruchwylydd ym mis Rhagfyr, gan fod y gŵyn yn dal heb ei datrys.<br>• Dywedodd y goruchwylydd nad oedd yn briodol i drafod yr achos oherwydd sensitifrwydd a risg.<br>Cafodd y gŵyn hon ei chau cyn cael canlyniad. |
| 5 | Diffyg cyfathrebu â swyddogion | Y tu allan i Atodlen 3 | • Y gŵyn wedi'i phasio i'r Arolygydd i ymdrin â hi. Hawl y dioddefwr i adolygiad wedi'i chyfeirio, a llythyr wedi'i ddarparu fel dilyniant i'r alwad. |

## **Sylwadau'r Adran Safonau Proffesiynol**

*Maes i'w wella*

*Dylai goruchwylwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Adran Safonau Proffesiynol ynghylch unrhyw gamau gweithredu / canlyniad cwyn y maent wedi ymdrin â hi'n anffurfiol y tu allan i'r Atodlen.*

**Ymateb** – Mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi newid i ddefnyddio Microsoft Teams ar gyfer dyrannu cwynion y tu mewn i Atodlen 3. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i hymgorffori, byddwn yn edrych i ddyrannu cwynion y tu allan i Atodlen 3 yn yr un ffordd, a fydd yn galluogi trywyddau archwilio gwell o ganlyniadau.

*Mewn rhai achosion, roedd yn anodd nodi beth oedd canlyniad y gŵyn neu a ydoedd wedi'i chyflawni, ac a oedd yr achwynydd yn fodlon â'r canlyniad.*

***Ymateb*** *– Fel uchod*

*Mewn un achos, penderfynodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu y gallai'r achwynydd fod wedi cael ei gyfeirio at yr adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol.*

***Ymateb*** – Y meini prawf ar gyfer adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol yw:

- Tri digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y chwe mis diwethaf i'r cyngor, yr heddlu neu'r landlord lle nad oes unrhyw gamau effeithiol wedi'u cymryd.
- Un drosedd gasineb neu ddigwyddiad lle nad oes unrhyw gamau effeithiol wedi'u cymryd.
- Lle mae uwch-swyddog priodol o fewn awdurdod cyfrifol yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynir gan bob parti ac yn credu bod digon o dystiolaeth i gychwyn adolygiad achos waeth beth fo rôl ceisydd yr adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Wedi brasddarllen y cofnod o ddigwyddiadau, mae'n ymddangos bod y tîm plismona bro wedi gweithio'n galed i geisio datrys materion (cyn y gŵyn). Materion sifil oedd y prif faterion a nodwyd, yn hytrach nag ymddygiad gwrthgymdeithasol ynddo'i hun. Yn wir, gellid bod wedi cyfeirio'r achwynydd at adolygiad achos ymddygiad gwrthgymdeithasol; fodd bynnag, mae pa un ai a gymerwyd camau effeithiol ai peidio yn oddrychol, ac efallai na fyddai adolygiad achos wedi bod o fewn y cwmpas.

**Hapsampl mis Chwefror**

1. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Mae’r Adran Safonau Proffesiynol yn y broses o adolygu sut yr ydym yn ymdrin ag achosion y tu allan i Atodlen 3.
2. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Yn yr achos hwn, roedd yr achwynydd yn hapus â’r canlyniad, ond caewyd yr achos y diwrnod cyn gwybod hyn. Mae’r Adran Safonau Proffesiynol yn y broses o adolygu sut yr ydym yn ymdrin ag achosion y tu allan i Atodlen 3.
3. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Anfonodd y sawl a neilltuwyd i ymdrin â’r gŵyn neges e-bost i’r Adran Safonau Proffesiynol ar 12 Mai 2024 i’w hysbysu ei fod wedi bod mewn cysylltiad â’r achwynydd a bod y mater yn mynd rhagddo. Nid oes diweddariad ‘terfynol’, ond o ystyried nad yw’r achwynydd wedi ailgysylltu â’r Adran Safonau Proffesiynol mae’n ymddangos bod yr unigolyn a fu’n ymdrin â’r gŵyn wedi datrys y mater yn ddigonol. Mae’r Adran Safonau Proffesiynol yn y broses o adolygu sut yr ydym yn ymdrin ag achosion y tu allan i Atodlen 3, a byddwn yn ymdrechu i gau unrhyw fylchau.
4. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Caewyd y gŵyn i ddechrau gan fod y gŵyn wedi’i negyddu drwy’r archwiliad cwmpasu a gynhaliwyd. Pan ofynnodd yr achwynydd i’r mater gael ei gofnodi’n ffurfiol, dylid bod wedi gwneud hynny ar yr adeg honno. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl i’r tîm.
5. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar.
6. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar.
7. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Nid oes unrhyw ganlyniad ers i’r achos gael ei ddyrannu i’r tîm plismona bro. Mae’r Adran Safonau Proffesiynol yn y broses o adolygu sut yr ydym yn ymdrin ag achosion y tu allan i Atodlen 3.
8. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Roedd yr unigolyn a fu’n ymdrin â’r gŵyn wedi bod yn ymgysylltu â’r achwynydd, sy’n ddall. Felly, ei dewis hi oedd cael llythyrau neu alwadau ffôn, yn hytrach na negeseuon e-bost. Anfonwyd llythyr ar 29 Gorffennaf 2024 yn esbonio materion yn ymwneud â’i chŵyn, a rhoddwyd gwybod i’r achwynydd y byddai Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu mewn cysylltiad ynglŷn â galwad ddiweddar a wnaed ganddi. Digwyddodd hyn wedyn. Ni chafwyd unrhyw gyswllt pellach gan yr achwynydd.
9. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar.

**Hapsampl mis Mawrth**

1. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar.
2. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar.
3. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Cafwyd neges e-bost oddi wrth yr unigolyn a fu'n ymdrin â'r gŵyn ar 26 Hydref 2024 yn adrodd ei fod wedi siarad â'r achwynydd ac wedi trafod ag ef y camau a oedd heb eu cymryd. Nid oedd yr Adran Safonau Proffesiynol wedi cynghori'r achwynydd ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud pe na fyddai'n fodlon ar yr ymdriniaeth y tu allan i Atodlen 3. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn y broses o adolygu sut yr ydym yn ymdrin ag achosion y tu allan i Atodlen 3, a bydd hyn yn cael ei ystyried.
4. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar. Bu'n rhaid i'r unigolyn a fu'n ymdrin â'r gŵyn ymdrin â'r achwynydd mewn ffordd sensitif a rheoledig o ran risg. Achosodd hyn oedi wrth symud ymlaen. Ni ddiweddarwyd y canlyniad i'r Adran Safonau Proffesiynol. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn y broses o adolygu sut yr ydym yn ymdrin ag achosion y tu allan i Atodlen 3.
5. Derbyniwyd adborth yn ddiolchgar.